

CYPE(5)-24-19 - Papur i'w nodi 14

Kirsty Williams AC/AM
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA-P/KW/3002/19

Lynne Neagle AC
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac
Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CAERDYDD
CF99 1NA

19 Awst 2019

Annwyl Lynne

Diolch am eich llythyr dyddiedig 31 Gorffennaf ynghylch y cais am wybodaeth ysgrifenedig er mwyn eich helpu i lywio'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21. Fel y nodwyd gennych mae ansicrwydd sylweddol o'i fath nas gwelwyd o'r blaen o ran amseriad y gyllideb eleni, ac mae hyn wedi bod yn heriol tu hwnt wrth fynd ati i ddatblygu cynlluniau gwariant ar gyfer y dyfodol.

Ar 9 Awst, cadarnhaodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig y byddai'n cynnal cylch gwario 'carlam' blwyddyn, i'w gwblhau ym mis Medi, gydag adolygiad o wariant am sawl blwyddyn sydd i'w gynnal yn 2020. Ar 15 Awst, cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd Ddatganiad Ysgrifenedig yn ymateb i hyn. Cadarnhaodd hynny fod peth ansicrwydd o hyd am yr hyn y mae'r cylch gwario carlam ym mis Medi yn ei olygu o ran cynlluniau Llywodraeth y DU ar gyfer Cyllideb yr Hydref. Bydd yn rhoi diweddariad pellach ar y goblygiadau i Gymru pan fydd manylion pellach ar gael.

Unwaith y bydd gennyf gadarnhad pellach, edrychaf ymlaen at gael rhoi dyddiadau mwy pendant i chi ar gyfer fy sesiwn dystiolaeth lafar i'w chynnal ar adeg a fydd yn gyfleus i bawb. Yn y cyfamser, rwy'n ddiolchgar am ddealltwriaeth barhaus y Pwyllgor ar y mater hwn, ac yn croesawu'r rhybudd ymlaen llaw o'r wybodaeth ysgrifenedig y mae ei hangen arnoch i lywio'r gwaith o graffu ar y gyllideb.

Yn gywir

Kirsty Williams AC/AM
Y Gweinidog Addysg

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.